Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid Gwasanaethau Plant
Cyfarwyddwyr Darparwyr Gwasanaethau Maethu
Annibynnol
Rheolwyr Maethu
CLlLC
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddogion Cyllid

12 Ionawr 2017

Annwyl Gydweithiwr

ISAFSWM LWFANSAU CENEDLAETHOL AR GYFER GOFALWYR MAETH 2017-2020

Diben

Mae'r llythyr hwn yn nodi isafswm y lwfansau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru y mae disgwyl i awdurdodau lleol eu gweithredu o 1 Ebrill 2017.

Cefndir

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Isafswm Lwfansau Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Maeth ar 1 Ebrill 2011 gan ymrwymo i adolygu cyfraddau'r lwfansau pob tair blynedd. Mae'r lwfansau wedi'u seilio ar waith ymchwil a wnaed gan London Economics (Wales) a Chanolfan Astudiaethau Mabwysiadu a Gofal Maeth Hadley i amcangyfrif y costau sy'n wynebu rhieni maeth wrth fagu plentyn maeth, er mwyn eu defnyddio fel sail ar gyfer gosod isafswm lwfansau ar gyfer maethu ledled Cymru. Mae cyfraddau'r lwfansau presennol yn gyfredol tan 31 Mawrth 2017. Dyma yw'r isafswm y mae darparwyr yn ei roi i'w gofalwyr ac nid ydynt yn rhwystro darparwyr rhag talu cyfraddau uwch. Ers i'r rhagolygon ar gyfer enillion cyfartalog gael eu cyhoeddi gan Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar 23 Tachwedd 2016, rydyn ni wedi gosod y lwfansau ar gyfer 2017-18 ymlaen.[1]

[1] Roedd y dull a ddefnyddiwyd gan LE Wales i ddyfarnu isafswm y lwfans cynhaliaeth a argymhellir yn ystyried cyfres o wybodaeth a oedd yn seiliedig ar incwm. Gwnaed hyn drwy edrych ar y twf yn yr enillion blynyddol cyfartalog yng Nghymru yn ôl cofnodion y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy ddefnyddio data'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Mae disgrifiad llawn o'r dull a ddefnyddiwyd i'w weld yn Atodiad 2 o Adroddiad LE Wales: http://londoneconomics.co.uk/blog/publication/fostering-allowances-and-a-fees-framework-for-foster-carers-in-wales/

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 02920 823320
Caerdydd ▪Cardiff
Ffacs ▪ Fax 02920 823924
Alistair.Davey@wales.gsi.gov.uk

Lwfansau

Yr isafswm lwfansau cenedlaethol yw'r lwfans craidd sylfaenol y mae gofalwyr maeth yn ei gael i ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig ag edrych ar ôl unrhyw blentyn maeth. Y bwriad yw gosod meincnod ar gyfer cyfraddau tâl i'r holl ofalwyr maeth.

Bydd union swm y lwfans y bydd unrhyw ofalwr maeth yn ei gael yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i anghenion penodol y plentyn ei hun.

Dylai'r lwfansau hyn gael eu rhoi i bob gofalwr maeth sydd wedi'i gymeradwyo gan wasanaeth maethu a gofrestrwyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am blentyn sy’n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr maeth a gymeradwywyd sy'n ffrindiau neu'n deulu i'r plentyn a gofalwyr seibiant byr neu ofal seibiant.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraddau lwfans a argymhellir ar gyfer lleoliadau maethu yng Nghymru. Mae'r cyfraddau'n amrywio’n ôl oedran y plentyn maeth.

Isafswm y cyfraddau lwfans wythnosol cenedlaethol a argymhellir wedi’u haddasu’n unol â rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer twf mewn enillion			
2017/2018			
Oedran y plentyn (blynyddoedd)	**0-4**	**5-15**	**16+**
Lwfans cynhaliaeth ar gyfer costau parhaus	**£170**	**£155**	**£194**
2018/2019			
Oedran y plentyn (blynyddoedd)	**0-4**	**5-15**	**16+**
Lwfans cynhaliaeth ar gyfer costau parhaus	**£175**	**£159**	**£199**
2019/2020			
Oedran y plentyn (blynyddoedd)	**0-4**	**5-15**	**16+**
Lwfans cynhaliaeth ar gyfer costau parhaus	**£181**	**£165**	**£206**

Dylid cofio bod y lwfansau sylfaenol hyn ond yn ddigonol ar gyfer ysgwyddo costau cyffredinol, arferol y rhan fwyaf o leoliadau maeth. Ni fyddant yn ddigonol i ysgwyddo costau ychwanegol ar gyfer plant sydd ag anghenion mwy dwys na'r mwyafrif o blant maeth.

Camau gweithredu - Awdurdodau Lleol / Darparwyr Maethu Annibynnol

O 1 Ebrill 2017, dylai pob gwasanaeth maethu yng Nghymru:

- gyhoeddi cyfraddau eu lwfansau
- cymryd y camau priodol i sicrhau bod gofalwyr maeth presennol a darpar ofalwyr maeth yn ymwybodol o'r cyfraddau. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'r wybodaeth ar eu gwefannau
- sicrhau bod y cyfraddau'n cael eu cofnodi neu eu bod ar gael ar yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
- sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng y lwfansau a'r ffioedd (yr elfen 'wobrwyo' o daliadau maethu).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch â Huw Gwyn Jones, Uwch-reolwr Polisi, y Gangen Gwella Canlyniadau Plant sy'n Derbyn Gofal (02920 823049 huw.jones2@cymru.gsi.gov.uk).

Yn gywir

Alistair Davey *MA, Cymrawd Siartredig o'r CIPD*
Dirprwy Gyfarwyddwr – Galluogi Pobl